**Cyngor Ysgolion Sul**
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH

**Ffôn** 01766 819120
**Ebost** aled@ysgolsul.com

Cyngor Ysgolion Sul

CYHOEDDIADAU'R GAIR

### I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL

# Apêl Sul Addysg, 2012

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni fel eglwysi ac Ysgolion Sul ail gychwyn gweithgarwch tymor yr Hydref pleser yw amgau gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. Dros y flwyddyn ddiwethaf cyhoeddwyd cyfres newydd sbon o werslyfrau ar gyfer pob oed, deunydd Cwrs Alffa, cynllun darllen y Beibl Efengyl100, adnoddau chwaraeon ar gyfer cofnodi cyfnod y gemau, ynghyd a nifer o adnoddau cyffredinol eraill, heb son am gyfres newydd o gardiau Nadolig a chardiau cydymdeimlad Cristnogol. Os am wybod mwy am y gwerslyfrau mae cyflwyniad fideo ar gael ar wefan www.ysgolsul.com, a gellir lawrlwytho ffurflenni oddi ar y wefan hefyd ar gyfer archebu yr holl adnoddau. Mae nifer o Feiblau lliw newydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar, gan gynnwys Her Fawr y Beibl, sy'n gosod her i ddarllen y Beibl mewn 100 diwrnod ar gyfer plant 7–13 oed – gweler y wybodaeth am y Beiblau yn y daflen hon. Mae ein Panel Adnoddau Digidol hefyd wedi bod yn brysur yn cyhoeddi DVD's ac adnoddau ar y we. Cofiwch hefyd fy mod ar gael i gynghori ar waith yr ysgol Sul, ac yn arbennig ar yr adnoddau cyfoes sydd ar gael at eich gwasanaeth.

Gofynnwn hefyd am eich gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn chi fel eglwys i neulltuo rhan o wasanaeth yn ystod mis Hydref i roi sylw i 'Sul Addysg', – bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, i ystyried ei werth heddiw, ac i weddïo dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hwn. Mae'n bleser gennym amgau gwasanaeth hefyd, sydd eleni yn dilyn thema chwaraeon a lletygarwch, ym mlwyddyn y Gemau 2012.

Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei apêl ariannol blynyddol i'r eglwysi. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf – mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni eto am eich cefnogaeth haelionus, gan yrru unrhyw gyfraniadau ataf (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. Y mae'r her i genhadaeth ymhlith plant ac ieuenctid yn fwy nag erioed – diolch am bob cefnogaeth ymarferol a gweddigar, a chofiwch gysylltu os am unrhyw gyngor. Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

*D. Aled Davies*

**Aled Davies** Cyfarwyddwr

..........................................................................................................................................

Amgaeaf siec o £................ fel cyfraniad o Eglwys .............................................................. am 2012.

Enw: ........................................................................................... Ffôn: ..................................................................................

Eglwys: ..................................................................................... Ebost: ...............................................................................

Cyfeiriad: ...............................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

**Ymddiriedolwyr:** Parchedigion Geraint Tudur, Peter Thomas, Dyfrig Lloyd, Mr. Rheinallt Thomas, Mr Gron Ellis a swyddogion cyfredol y Cyngor.
**Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity:** Rhif/No: 525766
**Swyddfa Gofrestredig/Registered Office:** Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

## Gwasanaeth ar gyfer Sul Addysg

# Y Croeso Anferth

## Y traddodiad o roi lletygarwch

*Rhedeg i ennill – 1 Corinthiaid 9: 24-27*

**Cyflwyniad**
Ym mlwyddyn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd hir-ddisgwyliedig s'yn bennaf yn ymwneud â chwaraeon, ni ddylid anghofio gweledigaeth ehangach Pierre de Coubertin a'i egni a arweiniodd at ailsefydlu'r Gemau Olympaidd a'r gemau modern cyntaf ym 1896. Yn ei gerdd 'Ode to Sport' ceir y llinellau:

'O Sport, You are Peace! ...Through you the young
of the entire world learn to respect one another,
and thus the diversity of national traits becomes
a source of generous and peaceful emulation!'

Mae gorymdeithiau'r sawl sy'n cymryd rhan yn y seremonïau agoriadol a chlo yn ymgorffori croeso'r wlad sy'n cynnal y gemau ynghyd â chyfeillach yr athletwyr a'u cefnogwyr, yn unedig yn eu hymrwymiad cyffredin i chwaraeon. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu canolbwyntio ein meddyliau ac ymrwymo ein hunain i gynnig croeso mawr ble bynnag y cawn ein hunain.

**Cyd-destun Beiblaidd**
Genesis 18: 1-8
Mae'r adnodd hwn yn defnyddio hanes Abraham a Sara fel man cychwyn i archwilio lletygarwch. Gallwch ddefnyddio'r fersiwn hwn o'r testun yn y gwasanaeth pob oed.

**Croeso helaeth**
Amser maith yn ôl roedd yna ddyn o'r enw Abraham yn byw gyda'i wraig Sara. Roedd Abraham a Sara yn hen iawn ac nid oedd ganddynt blant. Doedden nhw ddim yn byw mewn tŷ gydag ystafell sbâr neu wely soffa. Roedden nhw'n byw mewn pebyll, ac yn aml byddent yn pacio popeth er mwyn symud i rywle arall. Roedd Abraham a Sara yn bobl dda iawn, yn caru Duw ac yn ceisio byw yn y ffordd iawn.

Un dydd, pan oedd yr haul yn uchel yn yr awyr, roedd Abraham yn eistedd ger ei babell pan gerddodd tri ymwelydd tuag ato o gyfeiriad yr anialwch. Rhedodd atynt a'u gwadd i gysgod ei babell am ychydig. Cynigiodd rhywbeth i'w fwyta iddynt a derbyniodd hwythau ei gynnig.

Roedd Sara yn y babell. Cymerodd dri mesur o flawd, sy'n llawer iawn, a'i dylino i wneud teisennau bara. Yna dewisodd Abraham lo tyner a da, a brysiodd gwas i'w baratoi. Cynigiodd Abraham a Sara fara wedi ei wneud o'r blawd gorau, y cig gorau oedd ganddynt a llaeth i'w yfed. Gwnaethant y cyfan y gallent i roi'r croeso a gofal gorau posibl i'w gwesteion.

Pan oedd y cyfan yn barod, cyflwynodd Abraham y bwyd i'r ymwelwyr a safodd gyda nhw tra buont yn ei fwyta.

Yna dywedodd un o'r ymwelwyr, 'Ble mae Sara?' Pwyntiodd Abraham at Sara a dweud 'Mae hi acw yn y babell'. Dywedodd yr ymwelwr, 'Mewn ychydig o fisoedd bydd Sara'n cael bachgen bach.' Chwarddodd Sara, am nad oedd hi'n ei gredu.

Dim ond ar ôl i'r ymwelwyr adael y sylweddolodd Abraham a Sara eu bod wedi e hanfon gan Dduw, a bod Duw wedi eu bendithio'r trwy'r ymweliad hwnnw.

**Y traddodiad o roi lletygarwch Cristnogol**
Rheol Sant Benedict
Mae'r Gemau Olympaidd yn ein cymell ni i weld pawb fel ein brodyr a'n chwiorydd trwy'r diddordeb cyffredin mewn chwaraeon. Cawn ein galw i ragori wrth gynnig croeso a lletygarwch. Yn y fenter hon, mae Rheol hynafol Sant Benedict a'r arfer o letygarwch Benedictaidd dros y canrifoedd yn rhoi arweiniad da.

Ymhell cyn dyddiau'r cadwyni gwestai rhad, ymestynnai rhwydwaith o letyau i deithwyr ar draws Ewrop. Roedd hi'n bosibl i deithwyr ar droed, asyn neu ful deithio o Gaeredin i Rufain neu o Lisbon i Ferlin gyda'r sicrwydd rhesymol o ddod o hyd i groeso a llety am y noson mewn mynachlogydd a phriordai yn frith ar draws y cyfandir.

Mae gwreiddiau'r lletygarwch mynachaidd hwn yn y Beibl. Roedd Rheol Sant Benedict a ddefnyddiwyd fel canllaw sylfaenol i'r rhan fwyaf o gymunedau mynachaidd canol oesol yn tynnu ar yr Ysgrythur fel sail i lawlyfr am fyw'n gydweithredol fel Cristnogion.

Mae'n debyg ceir yr ysbrydoliaeth fwyaf cryno a bachog yn Mathew 25: 31-41

'Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person mwya dinod sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i.' (Beibl.net)

Yn y fan hon cawn hyd i'r cymal

'Chi roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb;' (Mathew 25: 35)

Disgwyliwyd i Gristnogion i gynnig lletygarwch, i fod yn bobl oedd yn croesawu'r dieithryn a'r sawl oedd mewn angen. Erys hyn yn wir heddiw, ac fe gofiwn y cyhuddiad yn erbyn y byd yn y rhagymadrodd i Efengyl Ioan.

'Roedd y Gair yn y byd, ac er mai fe greodd y byd, wnaeth pobl y byd mo'i nabod.'

A ydych chi'n barod i groesawu dieithryn?

**Astudiaeth achos**
Yn Eglwys Unedig Ddiwygiedig Emmanuel Caergrawnt,

caffi yw'r drws i'r eglwys. Mae'r caffi, sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â MENCAP, yn allweddol i'r croeso mae'r eglwys yn ei gynnig i weithwyr lleol ac ymwelwyr i'r ddinas. 'Roedd i niferoedd wedi mynd i lawr eleni,' dywedodd Jan, Cyfarwyddwraig Datblygu Cymunedol, 'hyd nes i arddangosfa bwysig agor yn yr amgueddfa lawr y ffordd. Yna cawsom ein boddi gan ymwelwyr, wrth i bobl ddarganfod croeso cynnes, dim pwysau a bwyd maethlon masnach deg.

Drosodd i chi...
Ystyriwch eich cymuned a pha mor barod ydych i groesawu a chynnig bwyd.

- I ba unigolion neu grwpiau fyddwch chi'n cynnig lletygarwch?
- Pa gyfleoedd sydd yn eich ardal i chi ddatblygu'r lletygrawch a gynigiwch?
- Sut allwch chi gynnwys pawb yn y weithred o roi croeso a lletygarwch, gan dorri'n rhydd o batrymau a swyddogaethau sefydledig?

Fel y cynigiodd Abraham letygarwch i dri dieithryn gerddodd mewn o'r anialwch, felly y dangosodd pobl Gwledydd Prydain letygarwch i bobl o bob rhan o'r byd, wrth i ni gynnal y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

**Cynllunio**
Trefnwch orymdaith i agor eich addoliad gan gynnwys grwpiau gwahanol o fewn cymuned yr eglwys, e.e. côr, glanhawyr, meithrinfa, clwb pobl hŷn, a phobl i gynrychioli'r gynulleidfa. Sicrhewch fod pawn yn cymryd rhan. Gofynnwch i bob grŵp o benderfynu ar rywbeth a fydd yn 'faner' iddynt, e.e. gall y glanhawyr gario brws, y band addoli offeryn a.y.b. Cynlluniwch lwybr o amgylch yr eglwys, y tu mewn a'r tu allan, beth bynnag sy'n addas o fewn eich adeilad, a dewiswch ddarn o gerddoriaeth addas i'w chwarae. Gellir lawr lwytho thema'r ffilm 'Chariots of Fire', 1981, yn hawdd. Ar ddiwedd yr orymdaith bydd pob grŵp yn gosod ei 'faner' ym mhen blaen yr eglwys, cyn mynd i eistedd ar gyfer y gwasanaeth.

Ar gyfer Meddwl am letygarwch yn y rhan Ymgynnull, ceisiwch gael copi neu gopïau o'r llun La Vebderoda de piñas gan Diego Rivera: www.posterazzi.com/Venderoda-de-Pinas-Poster-p/isiddr02.htm; neu www.tinyurl.com/AllPosters3. Paratowch binafalau masnach deg i'w harddangos, a phlatiau o ddarnau pinafal a ffyn coctel, i'w rhannu yn y sesiwn.

Ar gyfer Archwilio'r Gair, lawr lwythwch y templed o ddyfyniadau Saesneg o'r wefan a'i dorri'n ddyfyniadau ar wahan ar letygarwch. Gallwch hefyd eu harddangos wedi eu taflunio, neu fel cyfres o bosteri o amgylch yr ystafell.
Ar gyfer y gweddïau o eiriolaeth, argraffwch a thorrwch y templed ar y wefan gydag amlinell o binafalau.

**Ymgynnull**
Galwad i addoli
Gadewch i ni wneud lle ble caiff y dieithryn orffwys.
Mae croeso i bawb yn y lle hwn.
Gadewch i ni greu rhyddid i'r sawl sy'n ceisio cyfiawnder.
Mae croeso i bawb yn y lle hwn.
Gadewch i ni wneud lle i'r hen a'r ifanc.
Mae croeso i bawb yn y lle hwn.

**Geiriau cynnull**
Ynghanol Seremoni Agoriadol y Gemau Olympaidd mae gorymdaith yr athletwyr sy'n cystadlu. Maent yn cynrychioli nifer o wledydd ac ystod eang o gampau. Mae cymuned yr eglwys yn adlewyrchu amrywiaeth o ddiddordebau, sgiliau a chefndir, ac fe ddathlwn hyn nawr wrth i ni gynnal ein gorymdaith ein hunain, gan arddangos ein talentau, doniau a'n hoffrymau.

**Yr orymdaith**
Casglwch bawb at ei gilydd gyda'r eitemau byddant yn eu cario a dechreuwch orymdeithio i sŵn cerddoriaeth, gan symud i ben blaen yr eglwys i gyflwyno eu heitemau.

Emyn Deuwch gyda mi draw i dŷ fy Nhad CFf 54

**Gweddi agoriadol**
Dduw croesawgar, agor ein bywydau i dderbyn yr ymwelydd yn yr un ysbryd â'th haelioni llifeiriol a chariad anhunanol.
Agor ein llygaid a'n calonnau i weld Crist yn y dieithryn annisgwyl.
Agor ein calonnau a'n meddyliau i gyfarch y cread cyfan fel gwestai.
Bodda ein cybydd-dod,
trwytha ein bychander meddwl,
gwlycha ein diffyg haelioni,
Yn dy enw di, Dduw, nad oes terfyn i'th gariad.
Amen.

**Meddwl am letygarwch**
Dangoswch lun Diego Rivera La Venderoda de Piñas (gweler Cynllunio). Gwahoddwch rhai pobl i ddod ymlaen gyda phîn-afalau masnach deg a phlatiau o ddarnau o bîn-afal a ffyn coctel, a'u gosod ar fwrdd o flaen y llun.

Tyfodd pinafalau yn gyntaf yn yr Americas. Erbyn heddiw cant eu tyfu ar hyd y byd mewn hinsoddau cynnes fel ffynhonnell bwyd gwerthfawr. Yn ôl traddodiad pan laniodd Christopher Columbus yn y Caribî, rhoddodd y bobl leol bîn-afal iddo fel arwydd o letygarwch. Daeth y pîn-afal yn symbol o letygarwch ar hyd y byd.
Gwahoddwch rhai pobl o'r gynulleidfa i fynd o amgylch y gynulleidfa gyda'r platiau o bîn-afal. Wrth i bobl fwyta, gofynnwch iddynt siarad mewn grwpiau bychain a rhannu hanesion neu adegau pan wnaethon nhw brofi

neu weld gweithredoedd o letygarwch hael.

Emyn Yn gymaint iti gofio un o'r rhain CFf 854

**Agor y Gair**

Wedi ei eni yn yr hyn adweinid heddiw fel Affganistan, roedd Rumi, awdur y gerdd hon, yn gyfriniwr ac yn fardd Persiaidd yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Mae'r bod yn ddynol hwn yn westy;
pob bore dyfodiad newydd:
llawenydd, iselder, cybydd-dod,
daw rhyw ymwybyddiaeth fyrhoedlog
fel ymwelydd annisgwyl.
Rho groeso a'u diddana nhw oll,
hyd yn oed pe baent yn dorf o ofidiau,
sy'n sgubo'n ffyrnig dy dŷ
nes ei wagio o ddodrefn.
Er hyn trin pob gwestai'n anrhydeddus.
Efallai mai dy glirio di at ryw hyfrydwch newydd mae:
y meddwl tywyll, y gwarth, y malais.
Cwrdd â phob un wrth y drws gan chwerthin a'u gwadd i mewn.
Bydd ddiolchgar am bopeth ddaw
gan yr anfonwyd pob un
fel tywyswr oddi draw!

**Cyflwyno'r Gair Genesis 18:1-8**

Bydd angen: dau neu dri fag o flawd neu lun o bentwr o flawd; rholiau bara mewn dwy fasged; tri gwydriad o laeth ar hambwrdd; storïwr a phum person i feimio'r cymeriadau yn y darlleniad. Os yw'r dechnoleg gennych gallwch daflunio lluniau o storfeydd grawn a gwleddoedd i ddarlunio'r darlleniad.

Cyn dechrau, efallai yr hoffech wadd pobl i ddychmygu'r meintiau dan sylw. Defnyddiwch ddau neu dri fag cyffredin 1.5 cilo o flawd i helpu. Awgrymir y byddai 'mesur' o flawd ('seah' yn Hebraeg) yn pwyso 7 cilo – rhwng pedwar a phum bag o flawd i ni. Roedd tri mesur felly yn 21 cilo – tua 14 bag o flawd.

Mae'r storïwr yn darllen yr hanes, gyda'r meim isod yn darlunio'r testun. Defnyddiwch y fersiwn o'r hanes ar dudalen 1 neu darllenwch o'r Beibl.

Mae Abraham yn eistedd gyda'i ben dan orchudd, yn synfyfyrio. Daw'r tri dieithryn tuag ato. Ymhen ychydig mae Abraham yn edrych i fyny ac yn eu gweld. Mae'n mynd atynt ac ymgrymu'n isel. Mae'n eu gwadd i eistedd ac yn golchi eu traed.

Mae Abraham yn brysio i ffwrdd i siarad gyda Sara. Pan mae'n gofyn iddi gymryd tri mesur o flawd daw pobl gyda bagiau o flawd ymlaen a'u gosod mewn man canolog. Neu dewch â llun mawr o bentwr o flawd. Yna mae'n tylino'r bara.

Yna mae Abraham yn rhuthro i ffwrdd eto ac yn dod â gwydrau o laeth i'r ymwelwyr. Yn olaf daw Abraham a Sara â basgedi o fara i gynnig i'r ymwelwyr. Mae Sara'n gadael ac Abraham yn aros, wrth i'r ymwelwyr ddechrau bwyta.

Cân O Dduw ein Galwad, clywsom dy addewid CFf 668

**Archwilio'r Gair**

Gwahoddwch bobl i edrych ar y dyfyniadau ynghylch lletygarwch o'r wefan ac i ddewis cerdyn gyda'u hoff ddyfyniad. Pan fydd pawb wedi dewis dyfyniad, ystyriwch hanes Abraham a holwch y cwestiynau hyn gyda'ch gilydd:
Sut fyddai haelioni beiddgar aruthrol yn edrych yn ein cymuned?
Ble mae hyn yn digwydd eisoes?
Beth fyddai'n rhaid i ni newid er mwyn iddo ddigwydd?

**Ymateb i'r Gair**

Defnyddiwch y gweithgaredd hwn neu un o'r adran Gweithgareddau i bawb.

**Myfyrdod**

Roedd Thomas Merton (1915-1968) yn Fynach Trapaidd a fu'n byw rhan o'i fywyd ger Louisville, Kentucky. Daw'r dyfyniad hwn o'i lyfr Conjectures of a Guilty Bystander:

'Yn Louisville, ar gornel Fourth a Walnut, yng nghanol yr ardal siopau, cefais fy llethu'n ddisymwth gan y sylweddoliad fy mod yn caru'r holl bobl hynny, mai f'eiddo i oeddent a finnau ei heiddo hwythau, na fedrwn fod yn estron i'n gilydd er ein bod yn ddieithriaid llwyr. Roedd fel deffro o freuddwyd o arwahanrwydd.'

Gwahoddwch bobl i aros yn dawel a bod yn ymwybodol o'r bobl sydd yn eistedd agosaf atynt; yna o'r bobl y daethant ar eu traws neu eu gweld ar y ffordd i'r gwasanaeth; y bobl anghenus yn y gymuned; y sawl sy'n pasio trwy'r gymuned. Gallwch orffen hy gyda'r weddi hon.

Dduw hael a lletygar,
ehanga ein dealltwriaeth o groeso.
Boed i'r lle hwn fod yn un
ble caiff y dieithryn ddod i mewn a dod yn ffrind.
Tynn ymaith ein hiaith ni a nhw.
Agor ein drysau, a'n muriau llawn amheuaeth
fel y gall ryddid lifo
ac anadla arnom dy ysbryd o haelioni llawagored.
Yn enw Iesu sy'n rhoi bywyd,
bywyd yn ei holl gyflawnder.
Amen.

Emyn A ddoi di i'm dilyn i CFf 801

**Gweddi**

Peidiwch stopio'r arfer o roi croeso i bobl ddieithr yn eich cartrefi — mae rhai pobl wedi croesawu angylion i'w cartrefi heb yn wybod! Hebreaid 13.2

Yn y dieithryn,
yn yr ymwelydd,
yn yr un ar y cyrion,
byddwn yn y gweld Crist. Amen



# Cyfres Stori Duw









Mae gan Cyngor Ysgolion Sul Cymru banel cydenwadol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i weithio ar ddeunydd gwerslyfrau ar gyfer Ysgolion Sul Cymru, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr ym maes addysg Gristnogol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Panel hwn wedi bod wrthi yn cynllunio cyfres newydd sbon o werslyfrau, sef **Cyfres Stori Duw**, a fydd yn rhoi panorama i ni o daith fawr stori Duw. Bydd y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar yr Hen Destament, gan gyrraedd y Nadolig erbyn diwedd y flwyddyn. Yna bydd yr ail flwyddyn yn canolbwyntio ar fywyd a dysgeidiaeth Iesu a chyffro'r Eglwys Fore. Mae nifer o werslyfrau a llyfrau atodol newydd yn rhan o'r gyfres, gan gynnwys:

## Ar gyfer dan 5:

**Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5** – gwerslyfr sy'n cynnwys 50 o wersi, yn cynnwys stori, amser chwarae, amser dysgu, rhigwm a gweddi, ynghyd â llun a gweithgaredd.
I gyd-fynd â'r gwerslyfr, mae yna lyfr crefft sy'n cynnwys tua 200 o syniadau crefft yn nhrefn y Beibl, sef **Llyfr Crefft Stori Duw i blant bach**.

## Ar gyfer dan 11:

**Gwerslyfr Stori Duw i blant 6-11 oed** – gwerslyfr sy'n cynnwys 50 o storïau, yn cynnwys gwers gyflawn, ynghyd â llun a gweithgaredd. I gyd-fynd â'r gwerslyfr, mae yna lyfr crefft sy'n cynnwys tua 200 o syniadau crefft yn nhrefn y Beibl, sef **Llyfr Crefft Stori Duw i blant**.

## Ar gyfer dan 15:

**Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid** – gwerslyfr sy'n cynnwys 50 o sesiynau / astudiaethau Beiblaidd ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd.


Yn ychwanegol mae yna opsiwn i brynu Beiblau gweithgaredd ar gyfer yr oed cynradd, sef **Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf** i blant dan 7 oed a **Beibl Gweithgaredd y Plant** i blant dan 11 oed. Mae dau feibl lliw wedi cael eu paratoi hefyd ar gyfer cyflwyno'r stori gyfan, sef **Beibl Lliw Stori Duw** a **Beibl Bach Stori Duw**. Mae'r ddau Feibl arbennig yma yn cyflwyno'r stori eto fel un stori fawr, gan blethu a phontio holl storïau'r Beibl. Cyfrol arall sy'n rhan o'r cynllun yw **Oedfaon Stori Duw**, sef cyfrol o wasanaethau teuluol sy'n seiliedig ar 20 cyfnod yn hanes y Beibl. Mae **Taith Fawr Stori Duw** hefyd yn gyfeirlyfr defnyddiol sy'n esbonio'r stori a'r daith, trwy gyfrwng mapiau a ffeithiau hanesyddol. Mae DVD ar gael hefyd, sef **DVD Stori Duw**, sy'n cynnwys 52 stori pum munud yn cael eu hadrodd gan Mici Plwm. Yn ogystal mae cyflwyniadau Powerpoint ar gael, fel ffordd arall i gyflwyno'r storiau, yn cynnwys cyflwyniadau ar 64 o brif storiau'r Beibl: sef Cyfres **Powerpoint: Beibl Bach i Blant**. Ar gyfer ei arddangos fel adnodd gweledol ar wal yr Ysgol Sul mae yna linell amser sy'n cynnwys 16 panel lliwgar yn cynrychioli cyfnodau gwahanol yn hanes y Beibl, sef **Llinell Amser y Beibl**.








Mae'r oedolion hefyd yn dilyn yr un trywydd am gyfnod o ddwy flynedd, ac eto mae 2 adnodd ar gael, sef addasiad Meirion Morris o lyfr John Stott **Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn** a **Cydymaith Stori Duw** gan Huw John Hughes, sef cyfres o 92 gwers i fynd â ni trwy'r maes dros y 2 flynedd.





Credwn fel panel bod hwn yn gyfle gwych i gyflwyno Stori Fawr Duw i blant, ieuenctid ac oedolion o bob oed, gan bwysleisio cynllun achubol Duw ar gyfer ei fyd. Ar gyfer y plant oed cynradd cyhoeddwyd llyfryn hefyd, sef **Stori Fawr Duw**, sy'n gomic 32 tudalen, yn adrodd yn effeithiol iawn y stori fawr mewn ffordd gwbl gryno a syml – rhagflas perffaith ar gyfer cychwyn y gyfres. Mae'r adnoddau hyn i gyd ar gael o'ch siop Gymraeg leol neu'n uniongyrchol gan Cyngor Ysgolion Sul.





Cofiwch ein bod hefyd ar gael i'ch cynghori ar adnoddau ac ar unrhyw agwedd o waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu.
Pob bendith gyda'r gwaith,

Aled Davies

Cyfarwyddwr



# Ffurflen Archebu

# Cynllun Gwerslyfrau Stori Duw

## 2012 – 2014

Y prisiau arbennig (mewn cromfachau) yn berthnasol i eglwysi sy'n pertyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru.

| | Pris Siop | Pris Arbennig | | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWERSLYFRAU** | | | | | |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5 | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant 6–11 oed | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **CREFFT** | | | | | |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant bach | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| CD Gwerslyfrau Stori Duw – PDF 7 Llyfr | £19.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **LLYFRAU GWEITHGAREDD** | | | | | |
| Llyfr gweithgaredd Stori Duw i Blant Bach 1 a 2 | £11.97 | (£6.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Gweithgaredd y Plant gan gynnwys Beibl Gweithgaredd yr Eglwys Fore | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **BEIBLAU LLIW** | | | | | |
| Beibl Lliw Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Bach Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **DEFOSIWN** | | | | | |
| Oedfaon Stori Duw | £9.99 | (£7.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **FFEITHIOL** | | | | | |
| Taith Fawr Stori Duw | £6.99 | (£5.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **LLIWIO** | | | | | |
| Llyfr lliwio Stori Duw i blant | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **ADNODDAU GWELEDOL / CLYWEDOL** | | | | | |
| DVD Stori Duw – 52 stori | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Gŵr y Gwyrthiau | £9.99 | (£8.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Bach i Blant – Powerpoint | £13.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Llinell Amser y Beibl | £11.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| CDdiau Beibl y Storiwr | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **OEDOLION** | | | | | |
| Trwy'r Beibl, Trwy'r Flwyddyn | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Esboniad – Cyfres o 44 gwers x 2 | £6.99 | (£5.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Cynllun E100 – Llyfr Efengyl 100 | £8.99 | (10 am £50.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **CYFEIRLYFRAU** | | | | | |
| Set o 6: Llawlyfr y Beibl, Llawlyfr y Beibl i Blant Antur Trwy'r Beibl, Beth yw'r Beibl, Dysgu am y Beibl Darganfod y Beibl | £64.94 | (£25.00) | ❑ | ................ | ................ |
| | | | | **Cyfanswm Cost** | ................ |








Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ..........................................................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..........................................................................................................................

.......................................................................................................................... **Côd Post** ..........................................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# Ein Beiblau Plant









**Beibl Lliw Stori Duw** £12.99
Mae'r beibl hwn i blant yn cynnwys 365 o straeon, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn. Ceir dyfyniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd i gyd-fynd â phob stori, sy'n rhoi cyfle i ddarllenwyr brofi iaith ac arddull y testun hwnnw. Mae'r darluniau'n dehongli ac yn egluro, a'r gwyddoniadur hylaw yng nghefn y llyfr yn rhoi gwybodaeth am gyd-destun a chefndir y straeon.

**Beibl Bach Stori Duw** £12.99
Beibl lliwgar newydd i blant 5-8 oed yn ein harwain trwy'r Beibl, gan gyflwyno'r stori fel un stori, gan esbonio sut mae'r cyfan yn rhan o stori fawr Duw. Lluniau trawiadol a diwyg ffres.




**Beibl Lliw Dewis a Dethol** £4.99
Mae'r straeon yn y llyfr hwn wedi'u cymysgu! Bydd yn rhaid dod o hyd i'r cliwiau a throi'r tudalennau er mwyn cyfateb Noa gyda'i arch, a Dafydd gyda'i ffon dafl, a rhoi trefn ar rai o hoff straeon eraill y Beibl.




**Fy Meibl Bach i** £3.99
Casgliad o brif storïau'r Beibl wedi'u hadrodd yn syml a'u darlunio'n lliwgar ar gyfer plant bach.




**Her Fawr y Beibl** £9.99
Beibl Lliw newydd i Blant yn gosod her i'w ddarllen mewn can niwrnod.
















**Beibl Bach i Blant** £13.99
Cyfrol ddarluniadol hardd mewn lliw yn cynnwys dros 60 o storïau mwyaf poblogaidd yr Hen Destament a'r Testament Newydd, wedi eu haddasu ar gyfer plant ifanc.

**Beibl Newydd y Plant** £12.99
Beibl lliw newydd ar gyfer plant 5-8 oed. Dyma stori fawr y Beibl o'r Creu i'r Cadw, wedi ei hadrodd yn arbennig ar gyfer plant. Dewch i gyfarfod â'r cymeriadau hoffus 'ffrindiau beiblaidd' sydd ar bob tudalen. Mwynhewch storïau mwyaf cyfarwydd y Beibl gyda'ch gilydd – yn y cartref, yn yr ysgol a'r ysgol Sul, ac yn yr eglwys. Addasiad Cymraeg o *The Big Bible Storybook*.

**Beibl Newydd y Storïwr** £12.99
Casgliad o straeon o'r Beibl i'w darllen yn uchel i blant. Mae'r gyfrol hon yn fodd i gyflwyno plant bach i brif ddigwyddiadau a chymeriadau'r Beibl, ac yn gosod sail ar gyfer eu gwybodaeth feiblaidd. Addasiad Cymraeg o *The Lion Storyteller Bible* gan Cynthia Saunders Davies.

**Beibl y Plant Lleiaf** £12.99
Addasiad Cymraeg o gasgliad o ugain stori Feiblaidd gyda thestun syml wedi eu darlunio'n lliwgar, yn cynnwys deg stori yr un o'r ddau Destament; i blant 3-6 oed.

**Y Beibl Graffig** £16.95
Addasiad Cymraeg deniadol o gyfrol ddarluniadol lawn yn adrodd holl ddrama a chyffro, llawenydd a loes hoff hanesion y Beibl; i blant o bob oed.

# CARDIAU CYDYMDEIMLAD CRISTNOGOL CYMRAEG


## 8 cynllun newydd sbon ar gyfer 2012. Cardiau maint mawr (A5)
















Clawr Cefn




Clawr Cefn







## Pris y cardiau yw £1.50 yr un neu pecyn o 4 am £3

**Mae pob cerdyn yn cynnwys y cyfarchiad *'Yn Meddwl Amdanoch'* y tu fewn, ynghyd ag adnod o Salm 27:1**

**Yn ychwanegol mae pedwar ohonynt yn cynnwys geiriau o gysur a gobaith ar y clawr cefn e.e. 'Rho i'm yr hedd', 'Ôl Traed', 'Y Llong' a 'Dydy marw'n ddim ...'** (gweler y lluniau)

**I archebu, cysyllter â (gan nodi y nifer rydych am eu derbyn):**

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,
Gwynedd LL53 6SH
01766 819120 aled@ysgolsul.com

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ............... o gardiau am £1.50 yr un neu £3 y pecyn.

Enw a chyfeiriad dosbarthu ........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................................


........................................................................................................................................................................................

Côd Post ................................................................................................ Ffôn ........................................................................

# CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG


## 12 cynllun newydd sbon ar gyfer 2012. Cardiau maint mawr (A6)



































**Mae yna amrywiaeth o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael a werthir er budd gwaith yr ysgol Sul yng Nghymru, gyda chyfarchiad ac adnod ar bob cerdyn, ynghyd â llun lliw pwrpasol.**

Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!

**I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):**

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,
Gwynedd LL53 6SH

01766 819120 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ............... o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).

Enw a chyfeiriad dosbarthu ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

Côd Post ........................................................................................ Ffôn ..........................................................


# BETH YW BYWYD?

alffa


Heddiw, mae diddordeb newydd yn y ffydd Gristnogol, ac yn fwy penodol, ym mherson Iesu. Dros ddwy fil o flynyddoedd ers ei eni, mae ganddo fwy na dau biliwn o ddilynwyr. Bydd Cristnogion bob amser yn cael eu cyfareddu gan sylfaenydd eu ffydd ac Arglwydd eu bywydau. Ond yn awr, mae adfywiad yn y diddordeb gan rai nad ydyn nhw'n mynychu addoldy.

Mae nifer yn gofyn cwestiynau am Iesu. Ai dim ond dyn oedd Iesu, ynteu ai ef yw Mab Duw? Os ydyw, beth yw goblygiadau hyn ar ein bywydau o ddydd i ddydd?


Mae'r cwrs Alffa yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau allweddol sy'n rhan ganolog o'r ffydd Gristnogol, sydd wedi ei lunio ar gyfer rhai nad ydyn nhw'n mynychu addoldy, y rhai sy'n ceisio canfod rhagor am Gristnogaeth, a'r rhai sydd wedi dechrau arddel ffydd yn Iesu Grist yn ddiweddar. Rydym wedi gwylio gyda syndod wrth i Alpha ledaenu i dros 50,000 o gyrsiau ledled y byd. Mae miliynau o ddynion a merched o bob oedran sydd wedi dechrau cymryd rhan yn y cwrs, ac sy'n llawn cwestiynau am Gristnogaeth, wedi canfod Duw fel eu Tad, Iesu Grist fel eu Gwaredwr a'u Harglwydd, a'r Ysbryd Glân fel yr un sy'n dod i fyw o'u mewn.




**Cwestiynau Bywyd**
Pris: £6.99, 200tt, cm
Canllawiau i'r bywyd Cristnogol.
Llyfr i gyd-fynd â chwrs Alffa.




**Llawlyfr Alffa**
Pris: £1.50.
Llawlyfr i roi i bawb sy'n dilyn y Cwrs Alffa.




**Llawlyfr Hyfforddi**
Pris: £2.00.
Llawlyfr i arweinwyr a chynorthwywyr y Cwrs Alffa.




**Pam Iesu?**
Pris: 50c.
Cyflwyniad byr i'r ffydd Gristnogol i ennyn diddordeb ar gyfer y Cwrs Alffa.


## Cwestiwn

£8

Pwy wyf i? Beth yw bywyd? Pam bod cymaint o ddioddefaint yn y byd? Os yw Duw'n bodoli, sut un yw ef?

Mae Cwestiwn yn galluogi pobl i archwilio cwestiynau am Dduw sy'n cael ei gofyn yn aml yn gynnar ar daith ffydd. Mae pob cyflwyniad ar y DVD wedi ei gynllunio i ennyn ymdeimlad o gwestiynu a dyheu, gan ddarparu cyfeiriad i'r amser sgwrsio sy'n dilyn.


Yn dilyn pob un o'r chwe chyflwyniad, mae'r DVD yn cynnwys cwestiynau y gall y grŵp weithio trwyddynt yn eu hamser. Maent yn gyfle i bobl ymhel â'r testunau, a byddant yn helpu rhoi cyfeiriad i'r trafodaethau.



## Torri Syched

£7.99

Tair ffilm fer wedi eu cynhyrchu'n broffesiynol am bobl bywyd a ffydd i'w ddefnyddio mewn seiat neu noson genhadol. Yn addas ar gyfer ieuenctid hŷn (15+) ac oedolion. Llyfryn trafod i gyd-fynd â'r ffilmiau yn gynwysiedig ynghŷd â gwefan rhyngweithiol.



# Llyfrau defosiynol ar gyfer y cartref a'r eglwys
## gan Cyhoeddiadau'r Gair


Dewis eang o lyfrau myfyrdod, gweddïau ac oedfaon cyflawn ar gael.
Am y rhestr cyflawn o'r holl deitlau sydd mewn print ewch i www.gwales.com

Cynnig arbennig i eglwysi trwy ddychwelyd y ffurflen hon:

**Cyfle i brynu llyfrgell adnoddau i'ch eglwys am llai na HANNER PRIS!**

Un copi o bob un o'r teitlau a restrir isod am y **pris arbennig o £75 yn lle £170**, a chludiant am ddim!








Dychweler y ffurflen hon at Aled Davies,
Cyhoeddiadau'r Gair, Ael y Bryn, Chwilog,
Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH,
gyda siec am £65 yn daladwy i 'Cyhoeddiadau'r Gair'.

**Detholiad o 18 teitl gwahanol ar gyfer oedfaon a chyrddau gweddi, sef yr holl lyfrau yma:**

Dyrchafu'r Duw Byw, Yr Enw Mwyaf Mawr, Adlais,
Gweddïau'r Pedwar Tymor, cyfrol 1 a 2, Cyn ei Ddod , O'r Tŷ i'r tŷ
Gweddïau Cyhoeddus , Gweddïau Ymatebol a Chynulleidfaol,
Gair y Ffydd , Llyfr y Llyfrau, Blwyddyn gyda Iesu, Agor Iddo ,
Geiriau'r Gair , Does debyg iddo Fe cyfrol 1 a 2, Oedfaon Ffydd a Geiriau Ffydd.




## **Cynnal Oedfa** a **Cynnal Oedfa 2**

£11.99 yr un neu'r ddau am £20

Disgiau ar gyfer y cyfrifiadur, yn cynnwys gwasanaethau cyflawn ar gyfer addoliad cyhoeddus ar ffurf dogfenau PDF. Yn y ddisg gyntaf ceir cynnwys tair cyfrol sef *Yr Enw Mwyaf Mawr* a *Dyrchafu'r Duw Byw* gan Huw John Hughes a *Coronwch Ef yn Ben* gan John Lewis Jones. Yn yr ail ddisg ceir cynnwys y ddwy gyfrol *Oedfaon Ffydd* a *Gweddïau Cyhoeddus* gan Aled Davies.

Amgaeaf siec o £_____ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am:

❒ Becyn Llyfrau Defosiynol ❒ Cynnal Oedfa ❒ Cynnal Oedfa 2

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..............................................................................

..............................................................................

**Côd Post** .............................................. **Ffôn** ..............................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

CYHOEDDIADAU'R GAIR

CYNLLUN i gefnogi eich ysgol leol...
cyfle i eglwysi lleol gynorthwyo eu hysgolion lleol

# Cynllun Cronfa Illtud

**Y mae ysgolion yn cwyno am ddiffyg cyllid.**
**Y mae prinder adnoddau Cristnogol mewn ysgolion.**
**Y mae eglwysi yn pryderu am addysg Gristnogol.**

Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth creadigol i wella'r sefyllfa!

**CYFLE I EGLWYSI GYFLWYNO RHODD O LYFRGELL GRISTNOGOL GYMRAEG I YSGOL LEOL.**

**Pris arferol y llyfrau : £125. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60**

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl cyflwyno llyfrau darllen at wasanaeth eich ysgol gynradd leol.

Mae'r casgliad yn cynnwys 30 o'r llyfrau diweddaraf, lliwgar ar gyfer rhai rhwng 5-11 oed.

Gyrrwch siec am £60, yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul, ac fe yrrwn ni werth £125 o lyfrau i chi i'w cyflwyno i ysgol o'ch dewis.

I archebu gyrrer siec am £60, yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul', at : Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Amgaeaf siec o £60 am Becyn Illtud yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..........................................................................


..........................................................................

**Côd Post** .............................................. **Ffôn** ..............................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

## Y Cam Nesa!

adnodd i blant blwyddyn 6




Mae Y Cam Nesa! wedi bod yn declyn i helpu eglwysi i greu cysylltiadau gyda'u hysgolion lleol.

Mae Y Cam Nesa! yn llyfryn addas o safbwynt addysgol a sensitif o safbwynt diwylliannol, a luniwyd gan bobl ifanc a'r rhai hynny sy'n gweithio gyda nhw ac mae'n cynnig cyngor defnyddiol, storïau, awgrymiadau ac ymarferion mewn llyfr 64 tudalen lliwgar a llawn hwyl yn cynnwys:

- Canllaw goroesi A-Z
- Storïau gwir oddi wrth fyfyrwyr am sut i gymryd y cam
- Cyngor doeth, a'r syniad fod Duw gyda ni bob amser
- Cerddi a storïau difyr i'w darllen
- Tudalennau i gasglu llofnodion ffrindiau ac i wneud y llyfr yn bersonol

Mae Y Cam Nesa! ar gael yn rhesymol iawn i eglwysi: Copi sengl am £2.99 neu fel pecyn o ddeg, sy'n cynnwys canllaw defnyddiol i athrawon am £14.00 yn cynnwys cludiant.

## Dau adnodd newydd ar gyfer gwasanaethau Nadolig yn yr ysgol neu'r Ysgol Sul

### Beth wnawn ni'r Nadolig hwn? 1 a 2




Yn Llyfr 1 ceir pump ar hugain o ddramau o amrywiol hyd ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd yn eich helpu i ddathlu gwir ystyr y Nadolig – geni Iesu Grist i'r byd. £11.99




Yn Llyfr 2 ceir casgliad helaeth o adnoddau i baratoi gwasanaeth Nadolig gan gynnwys cyflwyniadau, darlleniadau storïau, gweddïau, sgetsys a myfyrdodau i'n helpu i ddathlu geni Iesu Grist i'r byd. £9.99

Dyma gyfrolau hynod ddefnyddiol i bawb sy'n trefnu oedfaon Nadolig ar gyfer plant a ieuenctid.

# Detholiad o'r llyfrau diweddaraf i blant
## – addas fel anrhegion Nadolig

**Hwyl Jig-So Stori'r Nadolig** £8.99
Ceir yma chwe jig-so lliwgar yn darlunio stori'r Nadolig i blant 5-8 oed. Fe'i cyflwynir mewn bocs lliwgar.

**Beibl Cyntaf y Plant Lleiaf** £9.99
Dyma gyfle i gyflwyno straeon bendigedig y Beibl i'ch plentyn. Darllenwch y straeon cyfarwydd mewn iaith syml i blant ifanc. Cyflwynir yr hanesion trwy gyfrwng lluniau syml, modern a lliwgar.

**Taflenni Beiblaidd Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr lliwgar o daflenni Beiblaidd i blant ifanc gyda phob tudalen yn golchi'n lân.

**Nadolig Pi-Po** £5.99
Edrych ar y lluniau, symuda'r paneli, ateb y cwestiynau a darllen hanes y Nadolig cyntaf ym Methlehem.

**Stori Fawr Duw** £1.99
Dyma gomic lliwgar i blant yn cyflwyno holl stori'r Beibl mewn iaith syml o Genesis trwodd i Ddatguddiad. Y cyflwyniad cyntaf i stori fawr Duw ar gyfer plant.

**Y Nadolig Gwyrdd Gwych** £3.99
Llyfr llawn syniadau crefft Nadolig ar gyfer oed cynradd.

**Llyfr Peintio Hud Storïau o'r Beibl** £5.99
Llyfr bwrdd gyda 5 llun i'w lliwio gyda beiro ddŵr arbennig.


**Llyfr Stensil Stori'r Nadolig** £5.99
Llyfr bwrdd gyda stori'r Nadolig a 5 stensil i'w amlinellu.


**Llyfr Peintio Hud Stori'r Nadolig** £5.99
Llyfr bwrdd gyda 5 llun i'w lliwio gyda beiro ddŵr arbennig.

**Pwy sy'n Cuddio?** £3.99
Llyfr bwrdd i'r plant lleiaf gyda fflapiau ar bob tudalen.

**Llyfr Mawr Straeon y Nadolig** £12.99
Llyfr hardd gan Angharad Tomos yn adrodd dros 25 o chwedlau a thraddodiadau'r Nadolig.

**Jig-so Ffrindiau Duw** £3.99
20 jig-so syml mewn bocs ar gyfer y plant lleiaf.































# Adnoddau Digidol
## ar gyfer yr Ysgol Sul

### Stori Duw
£14.99
52 o storïau Beiblaidd pum munud i blant yn cael eu darllen gan Mici Plwm – o'r diwedd y casgliad cyfan o 52 stori ar gael ar 2 DVD.




### Gŵr y Gwyrthiau
£9.99
Dyma gyfle arbennig i chi gael y ffilm arbennig hon i'w chadw a'i thrysori ar DVD. Gyda llais Ioan Gruffudd fel Iesu a chast cryf, talentog, mae hon yn ffilm sy'n adrodd stori gyfarwydd Iesu mewn arddull unigryw.





### Cyfres Werslyfrau Stori Duw
£19.99
Ar y ddisg gyfrifiadurol hon mae digon o wersi Ysgol Sul ar gyfer dwy flynedd o waith. Cyfres o 7 gwerslyfr sy'n cynnwys 50 o wersi Ysgol Sul sy'n cyflwyno prif storïau'r Beibl ar gyfer plant meithrin, plant 5–11 oed a ieuenctid 11–15 oed. Dros 400 o brojectau crefft a 200 o luniau i'w lliwio yn gynwysiedig.





### Cyfres Golau ar y Gair
£19.99
Ar y ddisg gyfrifiadurol hon mae digon o wersi Ysgol Sul ar gyfer pedair blynedd o waith. Cyfres o 40 gwerslyfr sy'n cynnwys 120 o wersi Ysgol Sul sy'n cyflwyno prif storïau'r Beibl ar gyfer plant meithrin, plant 5–11 oed a ieuenctid 11–15 oed.





### Beibl Bach i Blant
£13.99
64 cyflwyniad PowerPoint ar gyfer y cyfrifiadur yn seiliedig ar storïau allan o 'Beibl Bach i Blant', yn cynnwys dros 400 o luniau lliwgar.




### Beibl Newydd y Storiwr
£9.99
Yn y bocs yma ceir 4 CD Sain sy'n cynnwys 70 o storiau Beiblaidd yn cael eu darllen gan Catherine aran, Martyn Geraint, Mair Tomos Ifans a Wynford Ellis Owen.





### Am Stori!
£11.99
Disg ar gyfer y cyfrifiadur, yn cynnwys 300 o storiau i'w darllen i blant ar ffurf dogfenau PDF. Ceir yma gynnwys tair cyfrol sef Am Bobl, Am Ddawn ac Am Fyd gan Huw John Hughes.






Adroddwn wrth y genhedlaeth sy'n dod... i'r plant sydd heb eu geni eto ddod ac adrodd wrth eu plant. Er mwyn iddynt roi eu ffydd yn Nuw...
**Salm 78:4,6**



Cyfle i rannu stori'r Beibl yn eich Ysgol Leol –

# Cynllun AGOR Y LLYFR

**Ydych chi erioed wedi meddwl bod plant mewn ysgolion yn colli allan ar beth mae'r Beibl yn ei ddangos iddynt? Gallent fynd trwy eu bywyd ysgol heb ddysgu am Abraham, Moses, Dafydd, Ruth... neu hyd yn oed bywyd Iesu a straeon y Testament Newydd.**

Y mae **Agor y Llyfr** yn gynllun newydd cyffrous i alluogi eglwysi i greu cysylltiad gyda'i hysgol leol drwy ymweld yn gyson i ddarllen stori Feiblaidd i'r plant. Bwriad **Agor y Llyfr** yw cyflwyno tua 80 stori dros gyfnod o dair blynedd i blant oed cynradd mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'r cynllun yn defnyddio **Beibl Newydd y Storïwr**, ynghyd â llyfr **Agor y Llyfr** sy'n rhoi syniadau a chyflwyniad i bob stori.

Pris **Beibl Newydd y Storïwr** yw £12.99. Mae'r llawlyfr ar gael trwy ymweld a gwefan www.openthebook.net am £5. Bydd angen cofrestru pob grŵp gyda Open The Book. I archebu **Beibl Newydd y Storïwr** gyrrer siec yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul am £12.99 gyda chludiant am ddim.

Dyma gyfle gwych i ni fel eglwysi greu cysylltiad gyda'n ysgol leol, gan rannu cynnwys y Beibl i genhedlaeth na fyddant o reidrwydd yn clywed y storïau hyn o unrhyw gyfeiriad arall.

**Cofrestru**

Os nad ydych wedi cofrestru eto, byddwch angen gwneud hyn fel tîm, trwy gwblhau ac anfon Ffurflen Gofrestru **Agor y Llyfr**. Os gwelwch yn dda, darllenwch ddogfen Gwybodaeth Aelodaeth Tîm **Agor y Llyfr**.

I lawrlwytho'r ffurflenni hyn ewch i wefan www.openthebook.net a cliciwch ar yr Hafan Gymraeg. Dylid cwblhau'r Ffurflen Gofrestru ac, unai ei anfon trwy'r post neu ei ddychwelyd fel atodiad e-bost.

Mae cofrestru'n ddi-dâl ac unwaith y mae eich ffurflen wedi ei phrosesu bydd copi yn cael ei anfon at yr arweinydd tîm. Bydd bob gwirfoddolwr yn derbyn rhif aelodaeth unigol. Gofynnwch i'ch arweinydd tîm am eich un chi a chadwch gofnod ohono. Rydych angen y rhif hwn i archebu deunyddiau o A Great Read.



Dymunaf archebu ................. copi o **Beibl Newydd y Storïwr** am £12.99 yr un.

Amgaeaf siec o £ ................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.


**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..........................................................................................................

..........................................................................................................................................

**Côd Post** ........................................... **Ffôn** ...........................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH


# Llyfrau defosiwn diweddar





**Tymhorau Gras £12.99**
52 o wasanaethau cyflawn ar gyfer pob tymor o'r flwyddyn. Cyfrol newydd gan John Lewis Jones sy'n dilyn ei gyfrol gyntaf Coronwch Ef yn Ben.

**Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn** £14.99
Addasiad Meirion Morris o waith John Stott, sy'n cynnwys 365 myfyrdod, yn mynd â ni ar daith gronolegol trwy'r Beibl. Cyfle gwych i ddod i ddeall cynnwys a neges y Beibl cyfan mewn cyfnod o flwyddyn. Cyfrol clawr caled gywrain hardd.

**Mil a Mwy o Weddïau** £16.99
Casgliad o dros 1,000 o weddïau wedi eu casglu gan Edwin C Lewis. Cyfrol clawr caled gywrain hardd.





**Emynau Ffydd** 3 £8.99
Y trydydd casgliad o 100 myfyrdod ar emynau Cymraeg, y tro yma gan Iwan Llewelyn Jones.

**Dehongli'r Gwyrthiau** £8.99
Casgliad o dros 20 o fyfyrdodau ar wyrthiau Iesu gan Elfed ap Nefydd Roberts.

**Gweddïau Heddwch a Chyfiawnder** £9.99
Casgliad cynhwysfawr o weddïau a myfyrdodau ar thema heddwch a chyfiawnder, wedi eu casglu gan Guto Prys ap Gwynfor.

**Mil a Mwy o Berlau** £12.99
Casgliad o dros 1000 o ddywediadau bachog myfyrgar wedi eu casglu gan Olaf Davies. Cyfrol clawr caled gywrain hardd.

**Mil a Mwy o Emynau** £18.99
Casgliad o dros 1,000 o emynau wedi eu casglu gan Edwin C Lewis. Cyfrol clawr caled gywrain hardd.




## Y Beibl Fesul Llyfr £11.99

Awdur: Cris Rogers
Addasiad Cymraeg: Eleri Huws

Taith trwy ei bobl, ei leoliadau a'i themâu. Cyflwyniad clir, cryno, i bob llyfr yn y Beibl, wedi'i baratoi'n arbennig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion gyda lluniau lliw llawn drwyddo.

## 3 gwefan gydag adnoddau Ysgol Sul am ddim




**www.amserbeibl.org** – gwefan sy'n cynnwys gwersi ysgol Sul ar ffurf taflenni gwaith i blant dan 8 oed, dan 11 oed, dan 14 oed a dros 14 oed, i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Dyma gyfres o wersi a phosau Beiblaidd llawn hwyl i blant ac ieuenctid. Mae pedwar grŵp oedran allweddol yn y gyfres, Safon 1 (5–7 oed), Safon 2 (8–10 oed), Safon 3 (11–13 oed) a Safon 4 (14+ oed).

Mae yma wersi am lawer o straeon pwysicaf a phrif gymeriadau'r Beibl. Mae cynllun tair blynedd wedi'i drefnu ar gyfer pob grwp oedran gyda chyfres o bedair gwers ar gyfer pob mis. Y bwriad yw bod y plant yn gwneud un wers yr wythnos. Mae'r gwersi'n cael eu cyflwyno mewn ffordd uniongyrchol a diddorol gyda'r nod o annog y disgyblion i astudio mwy ar y Beibl. Gallwch lawrlwytho'r gwersi yn eu trefn trwy ddewis y grwp oedran cywir.

**www.beibl.net** – gwefan sy'n cynnwys aralleiriad cyfoes o'r Testament Newydd a llawer iawn o adnoddau fel astudiaethau, sgetsus, sgyrsiau a taflenni gwaith.

**www.visionforchildren.co.uk** – yn yr adran Gymraeg mae na gyflwyniadau Powerpoint o rai o brif storïau'r Beibl i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim

# Hybu'r Ysgol Sul

Nod yr adran yma yw rhoi ychydig o syniadau i chi, arweinwyr Ysgol Sul, ar sut i geisio denu mwy o blant, ac i gadw eu diddordeb yn yr Ysgol Sul. Efallai eich bod yn gwneithredu rhai o'r syniadau hyn yn barod, serch hynny, gobeithio y bydd yma ambell syniad fydd o gymorth i chi ddenu mwy o blant, ac i gryfhau presenoldeb y plant sydd yn mynychu.

**Gweithgareddau arbennig**
Mae'n syniad i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i gadw diddordeb y plant, ac i ddenu eu ffrindiau i ymuno mewn rhywbeth gwahanol.

**Sul Hwyl.** Tua unwaith y tymor, neu ddwy waith y flwyddyn, beth am gynnal Ysgol Sul ar ffurf clwb plant, lle nad yw'r plant yn rhannu i'w dosbarthiadau. Trefnir yr amser i gynnwys caneuon bwyiog (os am syniadau pellach gweler llyfr a CD "Tyrd i Ddathlu"), gemau, stori Feiblaidd (yn cael ei chyflwyno gydag adnoddau gweledol), gwaith crefft syml, diod a bisged. Defnyddiwch y doniau sydd gennych a'u gwau o gwmpas thema'r stori Feiblaidd.

Hysbysebwch y Sul Hwyl trwy'r capel a'r gymuned leol. Paratowch gardiau gwahoddiad i'r plant i fynd i'w ffrindiau – mae'n rhyfeddol pa mor frwdfrydig yw'r plant yn annog eu ffrindiau i ymuno yn yr hwyl.

Mae Sul fel hyn yn gyfle da i ddenu plant newydd i'r Ysgol Sul, ac i ddenu'r rhai na fu'n mynychu'n aml i ddod yn ôl.

**Yn ôl 2000 o flynyddoedd.** Beth am wahodd y plant i ddod i'r Ysgol Sul wedi eu gwisgo fel pe taen nhw'n byw yng nghyfnod Iesu. Gellid dethol un stori i'w chyflwyno i'r Ysgol Sul gyda'i gilydd, e.e. 'Dameg y Wledd Fawr', a gellid cynnig bwydydd tebyg i rai'r cyfnod i'r plant cyn iddynt fynd i'w gwersi e.e. bara pitta, olewydd, caws feta, ffigys, detys, grawnwin.

**Uno gydag Ysgol Sul arall.** Gall hyn weithio'n arbennig gyda dosbarth oedran 11-14+. Ar ddiwedd tymor cysylltwch ag ysgol Sul arall yn eich ardal, neu fwy nag un, er mwyn chwyddo'r niferoedd o ieuenctid i ddod at eu gilydd. Buasai'n fwy effeithiol i drefnu'r weithgaredd gyda'r nos a gwahodd siaradwr bywiog i sgwrsio gyda'r plant am rhyw hanner awr, yna gorffen y noson gyda pizzas i bawb.

**Ymweliad penwythnos.** Mae trefnu i fynd i ganolfan gyda'r plant yn brofiad gwerthfawr iawn. Mae'r plant yn gweld eich ymroddiad iddyn nhw yn mynd i drafferth i drefnu, ac rydych chithau yn cael cyfle i ddod i adnabod y plant yn dda. Mae penwythnosau'n cael eu cynnal trwy'r flwyddyn yng Ngholeg y Bala, ac mae gan y Cyngor Ysgolion Sul wersyll y Pasg yn Llangrannog. Am fwy o fanylion cysylltwch a Choleg y Bala.

## Ar ddechrau tymor

**Rhaglen:**
Byddai o gymorth mawr i chi fel arweinwyr ac i'r a phlant a'u rhieni wybod beth fydd rhaglen yr Ysgol Sul am y flwyddyn i ddod. Gallech nodi arni pryd y bydd gwyliau, gwasanaethau arbennig, trip, Sul gwobrwyo a gweithgareddau'r Cyngor Ysgolion Sul. Byddai'n gysylltiad da gyda gweddill cynnulleidfa'r eglwys hefyd, iddynt fod yn ymwybodol o weithgarwch yr Ysgol Sul.

**Hysbysebu:**

- Mae Cerdyn Gwahoddiad a Poster Hysbysebu yr Ysgol Sul ar gael i lawrlwytho ar wefan www.ysgolsul.com.
- Cerdyn post. Gyrrwch gerdyn post i'r plant a fu'n mynychu'r ysgol Sul yn ystod y flwyddyn diwethaf gan ddiolch iddynt am eu ffyddlondeb a rhoi manylion pryd y bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn. Cofiwch ddiolch i'r rhieni ar y cerdyn am eu cefnogaeth yn gyrru'r plant.
- Cysylltu gydag ysgol neu gylch meithrin. Mae llawer o ysgolion lleol yn barod iawn i gydweithredu a chaniatau i chi rannu gwahoddiadau i'r plant trwy'r ysgol. Cysylltwch â'r pennaeth ac arweinydd y Cylch Meithrin i ofyn os yw hyn yn bosib'.
- Hysbysebu yn y wasg. Rhowch hysbyseb yn eich papur lleol neu yn y papur bro yn dweud pryd ac yn lle y bydd yr Ysgol Sul, gan estyn croeso i aelodau newydd.
- Posteri. Gosodwch bosteri lliwgar o gwmpas eich ardal, gan dynnu sylw at unrhyw ddigwyddiadau hwyliog yn ystod y tymor.

**Awyrgylch:**
Edrychwch yn ofalus ar yr ystafell ble bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod. A ydyw'n oeraidd? yn ddi-liw? Tybed a oes posib gwella ei golwg? A fyddai'n bosib' rhoi côt o baent, neu osod posteri Cristnogol lliwgar ar y wal? Beth am osod hysbysfwrdd ar gyfer arddangos gwaith y plant. Trafodwch gyda blaenoriaid y capel i weld os oes modd gwella'r adnoddau.

**Amser yr ysgol Sul:**
Tybed a yw'r amser a gynhelir yr ysgol Sul yr amser gorau i ddenu plant? Mae cymaint o weithgareddau a galwadau ar blant ar y Sul, efallai y byddai ystyried symud yr Ysgol Sul yn gynharach o gymorth.

**Sul cynta'r tymor:**
Dylai'r cyfarfod cyntaf fod yn amser bywiog ac atyniadol i'r plant, fel y byddant yn awyddus i ddod yn ôl o Sul i Sul. Dewiswch ganeuon bywiog sy'n ffefrynnau gan y plant, chwaraewch gêm neu ddwy, defnyddiwch adnoddau gweledol i'ch cynorthwyo i ddweud stori, paratowch ddiod a bisgedi neu gacennau neu greision i'r plant.

## Cysylltiad gyda chynulleidfa'r eglwys

**Amrywiaeth o ddoniau**
Ymhob cynulleidfa ceir amrywiaeth o ddoniau a diddordebau. Efallai fod yna ...

... arlunwyr fyddai'n creu adnoddau gweledol arbennig i gydfynd â storïau,
... berson cynnes ac annwyl fyddai wrth eu bodd yn croesawu'r plant i'r Ysgol Sul,
... berson trefnus fyddai'n cynorthwyo gyda gweinyddiad yr Ysgol Sul, neu'n cofio i yrru cardiau Penblwydd ayb i'r plant,
... berson a diddordeb mewn cyfrifiaduron a allai gynorthwyo gyda chreu adnoddau, neu greu gwefan i'r Ysgol Sul,
... berson fyddai'n gallu gwau neu wnïo pypedau.
Mae'n bosib' i aelodau yr eglwys fod yn gefnogol i'r ysgol Sul heb fod yn athro neu athrawes.

**Cyfathrebu**
Byddai'n bosib' cryfhau perthynas yr Ysgol Sul gyda gweddill y gynulleidfa pe tae cyfle i rywun o'r Ysgol Sul sôn yn fyr yn ystod y cyhoeddiadau, tua unwaith y mis, am yr hyn fu'n digwydd yn yr Ysgol Sul yn ystod y mis diwethaf. Buasent hefyd yn gallu sôn am beth fydd yn digwydd yn ystod y mis nesaf.

Os oes cylchgrawn yn yr eglwys, beth am i un o'r plant hŷn ysgrifennu erthygl byr am yr Ysgol Sul rwan ac yn y man.

**Hysbysfwrdd yr Ysgol Sul**
Byddai gosod hysbysfwrdd yn arbennig ar gyfer gwaith yr Ysgol Sul yng nghyntedd y capel yn gymorth i hysbysebu gweithgarwch yr Ysgol Sul. Byddai'n le da i arddangos Polisi Diogelwch Plant, fel bod rhieni yn gweld eich bod yn cymryd gofal am eu plant o ddifri'. Mae'n bwysig cadw'r deunydd ar yr hysbysfwrdd yn gyfredol, a pheidio a gadael hen wybodaeth arno'n yn rhy hir.

**Cyfarfod gweddi**
Ydych chi'n cyfarfod fel athrawon i weddïo? Os oes cyfarfod gweddi yn yr eglwys mae'n bwysig eu bod yn derbyn cais yn gyson i weddïo dros waith yr Ysgol Sul.

Os nad oes cyfarfod gweddi, dylai fod yn flaenoriaeth i ddechrau gweddïo gyda'ch gilydd. Ofer yw'n gwaith caletaf, mwyaf egnïol heb fod Duw yn y canol.

## Cefnogaeth rhieni

**Dewch a ffrindiau'ch plant**
Beth am ofyn i rieni sy'n aelodau yn eich eglwys, neu'n gefnogol i'r Ysgol Sul i gynnig i ddod a ffrindiau eu plant gyda nhw i'r Ysgol Sul. Bydd hyn yn siwr o blesio'r plant gan eu bod yn mwynhau cael cwmni eu ffrindiau, ac mae'n cryfhau eu delwedd o'r Ysgol Sul.

**Cyfle i'r rhieni**
Yn hytrach na danfon eu plant a gadael, byddai'n gadarnhaol i'r eglwys i ddarparu ystafell i'r rhieni gymdeithasu, neu i gynnal dosbarth Ysgol Sul ar eu cyfer. Byddai'n gaffaeliad i Ysgol Sul yr oedolion ennill dosbarth o rieni ifanc.

**Noson rieni**
Gwahoddwch rieni am baned a phwdin a noson anffurfiol fel y gallwch egluro'r hyn fyddwch chi'n ei wneud yn yr Ysgol Sul o wythnos i wythnos, a sôn am y gweithgareddau fyddwch yn eu trefnu ar gyfer y plant yn ystod y flwyddyn. Gall eu gwerthfawrogiad hwy o'ch gwaith a'ch ymroddiad sicrhau eu cefnogaeth yn gofalu fod eu plant yn mynychu'n gyson. Efallai byddai modd cynhyrchu taflen syml yn egluro nod yr Ysgol Sul ac yn cynnwys rhaglen weithgareddau'r Ysgol Sul am y flwyddyn.

Gwobrwyo am eu ffyddlondeb. Gellid casglu amrywiaeth o deganau y mae'r plant yn eu hoffi, neu lyfrau addas a gosod "pris" (h.y. hyn a hyn o bwyntiau) ar y nwyddau, a byddai'r plant yn cael "prynu" nwyddau gyda'r pwyntiau maent wedi eu casglu trwy'r flwyddyn.

Neu, gellid dewis gwobrau amrywiol i gydfynd gydag ystod o bwyntiau, a'r wobr yn cyfleu gwerth y pwyntiau e.e. 250 – 300 o bwyntiau yn ennill pecyn o binau ffelt.

Defnyddiwch eich dychymyg a dathlwch ffyddlondeb y plant!

## Prosiectau

**Creu gardd.** Os oes ychydig o dir o gwmpas y capel neu'r festri, beth am fynd ati i greu gardd Feiblaidd gyda'r plant. Gofynnwch i aelodau'r capel neu rieni sy'n garddio eich cynorthwyo i chwilio am blanhigion Beiblaidd fyddai'n addas i'w tyfu yn yr ardd. Os yw lle yn brin, beth am ddefnyddio potiau blodau, neu gael planhigion y tu fewn i'r festri, neu gyntedd y capel.

**Codi arian.** Beth am ofyn i'r plant eich cynorthwyo i godi arian tuag at:

- elusen e.e. Cymorth Cristnogol, elusen i blant,
- adnoddau i'r Ysgol Sul,
- gronfa'r Ysgol Sul.

Beth am gynnig paned neu bryd ysgafn ar ôl oedfa; gallai'r plant wneud cardiau cyfarch neu farc llyfr gydag adnodau arnynt i'w gwerthu. Unwaith eto, defnyddiwch eich dychymyg!

## Diwedd tymor

**Picnic.** Beth am drefnu picnic ac ychydig o gemau, gyda gwasanaeth awyr agored fer i ddiweddu'r tymor.

**Barbeciw.** Trefnwch farbeciw, un ai ar dir y capel, neu yn lleol i ddilyn gwasanaeth addas i pob oed ar ddiwedd y tymor. Gwahoddwch rieni'r plant ac aelodau'r capel.

# Cyfeillion yr Ysgol Sul – Eich ymateb chi?

**GWIRFODDOLWYR**

Y mae angen helpwyr ar yr Ysgolion Sul, ar sawl lefel. Mae angen dirfawr am athrawon Ysgol Sul. Efallai eich bod mewn eglwys heb Ysgol Sul – beth am gynnig eich gwasanaeth i sefydlu gwaith newydd neu i gynorthwyo mewn Ysgol Sul gyfagos.

Y mae angen gwirfoddolwyr ar y Cyngor Ysgolion Sul hefyd. Mae yna nifer o bosibiliadau:

Siaradwyr lleol i fynd at Ysgol Sul i gyflwyno darpariaeth sydd gan y Cyngor Ysgolion Sul i'w gynnig

Cyfieithwyr a golygyddion i addasu deunydd a llenyddiaeth addas.

Efallai bod gennych ddawn/gyfraniad arbennig – darlledu/arlunio/cerdd/cyfansoddi ayb – cysylltwch â ni.

Y mae Cyngor Ysgolion Sul, fel yr enwadau, yn ceisio arfer polisi arfer da ac yn cydymffurfio â'r canllawiau i wirio gwirfoddolwyr newydd i sicrhau y diogelwch gorau posibl i'n plant.

**GWEDDÏWYR**

Y mae'r alwad i weddi heddiw yn gryfach nag erioed. Mae angen ar y Cyngor Ysgolion Sul i gael tîm o weddïwyr cyson, yn benodol yn gweddïo dros waith yr Ysgol Sul, yn lleol a chenedlaethol.

**CYFRANWYR**

Mae y Cyngor Ysgolion Sul yn cyflogi gweithwyr i hyrwyddo gwaith Ysgolion Sul/ac eglwysi gyda'i cenhadaeth i blant a ieuenctid.

**Gall ein cyfranwyr gefnogi drwy:**

- yrru rhodd at y gwaith, mae pob cyfraniad yn werthfawr, ond y rhai rheolaidd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r gwaith
- gyfamodi at y gwaith yn fisol neu'n flynyddol (gallwn yrru ffurflen rhodd cymorth atoch)
- gofio am waith Cyngor Ysgolion Sul mewn ewyllys.

**Beth a phwy yw'r Cyngor Ysgolion Sul?**

Sefydlwyd yn 1966, er mwyn:

- hybu addysg Gristnogol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg
- hyfforddi a chalonogi athrawon Ysgolion Sul
- cyhoeddi gwerslyfrau, llyfrau ac adnoddau amrywiol i hybu'r gwaith

Y mae'r Cyngor, sy'n cyfarfod yn rheolaidd, yn cynnwys swyddogion a chynrychiolwyr yr enwadau sy'n ei noddi sef:

- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
- Yr Eglwys yng Nghymru

Y mae yna gynrychiolwyr hefyd o'r mudiadau a sefydliadau Cymreig a Christnogol sy'n gweithio gyda phlant a ieuenctid yng Nghymru.

# Her Darllen Efengyl 100

## eich taith trwy'r Beibl mewn 100 diwrnod

Cynllun newydd yw 'Her Darllen Efengyl E100', gyda'r her o ddarllen 100 darn o'r Beibl dros gyfnod o 100 diwrnod. Dewiswyd y 100 darn yn ofalus, sy'n cynnwys 50 darn o'r Hen Destament a 50 darn o'r Testament Newydd, gyda'r gobaith o helpu'r darllenydd i ddeall stori ac ystyr cynnwys y Beibl.

Gall unigolyn ei ddilyn ar ei ben ei hun, drwy addunedu i ddarllen y 100 darn fesul diwrnod, ac yna i ddarllen y nodiadau cefndirol sy'n rhan o lyfr Efengyl 100. Bydd gwneud hyn yn ffordd effeithiol iawn o weld prif themau a negeseuon yr efengyl, ac yn fodd o ddeall y Stori Fawr a geir yn y Beibl.

Mae hwn hefyd yn gynllun i'r eglwys gyfan – ac i gyd-fynd gyda'r 100 darn, sydd wedi ei dorri i fyny i 20 thema a chyfnod yn y Beibl, mae na hefyd, ar wefan www.ysgolsul.com, cyfres o 20 pregeth ac 20 astudiaeth Feiblaidd i gyd-fynd â'r deunydd hwn. Felly yr her yw i unigolion ddarllen gwerth 5 diwrnod yn ystod yr wythnos, ac yna ar y Sul gwrando ar bregeth ar y darlleniadau hynny, neu i gyfrannu mewn astudiaeth Feiblaidd canol wythnos, i'r eglwysi hynny sy'n cyfarfod i drafod y Gair. Gellid hefyd ei ddefnyddio fel opsiwn ar gyfer dosbarthiadau ieuenctid neu oedolion yn yr Ysgol Sul.




**Pris Efengyl 100 yw £8.99 y copi neu gellir prynu pecyn o 10 llyfr i'r eglwys am £50**

*Mae'r nodiadau pregeth ac astudiaethau Beiblaidd ar y wefan yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho (Hydref 2011 ymlaen).*